| | |
|---|---|
| **Dyddiad Creu:** | 29/04/2021 |
| **Dyddiad Cyhoeddi:** | 30/09/2021 |
| **Fersiwn Rhif:** | 1.00 |

| | |
|---|---|
| **Maes Gwasanaeth:** | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol |
| **Maes Gwaith:** | Gwasanaethau i Oedolion |
| **Manylion Cyswllt:** | Jo Williams, Cyfarwyddwr Cynorthwyol<br>willij6@caerffili.gov.uk<br>01443 864611 |
| **Enw'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Gwasanaeth ARMED Teleofal. |
| **Disgrifiad o'r Hysbysiad Preifatrwydd:** | Bydd yr hysbysiad preifatrwydd hwn yn egluro sut y bydd Gwasanaethau Teleofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a, lle bo angen, y Tîm Adnoddau Cymunedol, yn defnyddio data a gasglir fel rhan o'r gwasanaeth ARMED. |

# Sut y defnyddiwn eich gwybodaeth

## Ffynhonnell a'r math o wybodaeth a brosesir

Gwybodaeth gofrestru ac asesu prosiect – y gwasanaeth ARMED

Pan fyddwch yn cofrestru am y gwasanaeth, bydd angen i chi roi manylion amdanoch eich hun er mwyn gallu creu eich cyfrif ARMED a nodi'r sefyllfa gychwynnol i asesu pa mor effeithlon fydd y gwasanaeth.

Casglu data parhaus – y gwasanaeth ARMED

Wrth ddefnyddio'r gwasanaeth ARMED, bydd y data canlynol yn cael ei gasglu'n barhaus.

1) Lefel gweithgarwch neu symudiad / Polar Loop (band arddwrn)
   Mae'r band yn cymryd nifer o ddarlleniadau gan y gwisgwr, gan gynnwys symudiad, dim symudiad, cwsg ac a oedd y cwsg yn esmwyth.
2) Clorian mesur cyfansoddiad / cyflwr corfforol
   Mae'r glorian yn casglu metrigau cyflwr corfforol, gan gynnwys Mynegai Màs y Corff (BMI) a'r hylif yn y corff.
3) Prawf perfformiad / cryfder gafael
   Cymerir tri darlleniad gan yna gyfrifo'r cyfartalog.

Mae'r data'n cael ei lanlwytho i'r system ARMED drwy ap ffôn clyfar. Mae pob cyfranogwr yn cael ffôn clyfar er mwyn gallu gwneud hyn. Yn achos y *Polar Loop*, bydd hyn yn digwydd yn awtomatig. Yn achos y glorian a'r prawf gafael, bydd cymhorthydd y prosiect neu gynrychiolydd o'r Tîm Adnoddau Cymunedol yn helpu.

Bydd rhai cyfranogwyr yn cael ffôn larwm Doro i lanlwytho'r data. Gall y ffonau Doro hefyd weithio fel larwm argyfwng. Bydd yr unigolion yn cael eu cofrestru ar gyfer y gwasanaeth larwm a'u manylion yn cael eu casglu a'u cofnodi fel gyda'r Gwasanaeth Teleofal (mae Hysbysiad

Preifatrwydd arall ar gyfer y gwasanaeth hwn). Bydd yr adran yma'n egluro pa gategorïau o ddata personol allai gael eu rhannu gyda ni, a'r mathau o gwmnïau / unigolion a allai roi gwybodaeth i ni.

Gwerthuso'r Gwasanaeth ARMED

Byddwn yn gofyn i chi roi gwybodaeth i ni ar ddiwedd y prosiect fel y gallwn werthuso'r gwasanaeth.
Byddwn hefyd yn defnyddio'r wybodaeth a gasglwyd ar ddechrau a thrwy gydol y prosiect i'n helpu i werthuso.

**Categorïau o ddata personol fydd yn cael eu casglu**

Bydd y gwasanaeth ARMED yn casglu'r categorïau canlynol o ddata personol gennych:

- Enw
- Cyfeiriad
- Dyddiad Geni
- Rhywedd
- Taldra
- Pwysau
- Manylion iechyd a lles, gan gynnwys
  - Patrymau cysgu
  - Gweithgarwch / ymarfer corff
  - Gwybodaeth am unrhyw godwm yn y 6 mis cyn cofrestru i'r gwasanaeth
- Manylion Cyswllt

Gall y gwasanaeth ARMED hefyd gasglu a chadw gwybodaeth fwy penodol, gan gynnwys:

- Unrhyw ymweliadau neu gyswllt a recordiwyd gennych chi neu ni
- Gwybodaeth am aelodau eraill eich cartref
- Manylion am unrhyw berthnasoedd teuluol yn eich cartref neu'r tu allan i'ch cartref
- Enwau a manylion cyswllt eich perthnasoedd agos a / neu ofalwyr
- Enwau a manylion cyswllt pobl eraill yr ydych chi neu eich eiriolwr wedi eu henwebu fel person cyswllt neu ymatebydd personol (ffrind neu gymydog er enghraifft)
- Manylion eich meddyg teulu
- Manylion eich landlord cymdeithasol cofrestredig
- Pecynnau gofal
- Manylion unrhyw wasanaeth arall yr ydych yn ei dderbyn
- Manylion am eich anghenion ym mhob rhan o'ch bywyd (e.e. anghenion gofal a chymorth)
- Manylion am eich iechyd corfforol
- Manylion am eich lles
- Gwybodaeth a ddefnyddir i asesu eich sefyllfa, fel asesiadau ac adroddiadau
- Pethau y mae sefydliadau eraill (fel y gwasanaeth iechyd neu gartrefi gofal) yn ei ddweud wrthym i'n helpu i ddeall eich sefyllfa ac anghenion, ac i gydlynu eich gofal yn fwy effeithiol
- Unrhyw anghenion ychwanegol neu anabledd
- Manylion am eich capasiti ac iechyd meddwl
- Manylion am eich canlyniadau personol
- Manylion am eich ffordd o fyw
- Manylion am fynediad i'ch cartref, gan gynnwys lleoliad eich sêff goriadau a'r codau
- Gwybodaeth am unrhyw risg bosib i bobl sy'n ymweld â'ch cartref (e.e. ci sy'n warchodol ohonoch)
- Gwybodaeth ariannol
- Cofnod troseddol

- Cyfiawnder adferol
- Colli rhyddid

**Ffynhonnell y data personol**

Mae Gwasanaeth ARMED Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n derbyn a chofnodi gwybodaeth amdanoch o nifer o wahanol ffynonellau. Gallai'r wybodaeth yma ddod gan:

- Chi
- Aelodau o'ch teulu
- Pobl gyswllt personol (wedi eu henwebu gennych chi neu eiriolwr)
- Y gwasanaethau brys
- Adrannau eraill yng Nghyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili
- Awdurdodau lleol eraill
- Awdurdodau iechyd
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Llys Gwarchod
- Cwmnïau trydan, dŵr ayyb
- Cyrff rheoleiddio - Arolygiaeth Gofal Cymru / Arolygiaeth Iechyd Cymru
- Cynrychiolwyr cyfreithiol
- Gweithwyr gofal proffesiynol
- Trefnwyr angladdau
- Asiantaethau partner

Os hoffech dderbyn mwy o wybodaeth am ffynhonnell y wybodaeth amdanoch, cysylltwch â'r Cyngor. Efallai y bydd angen i chi wneud Cais Gwrthrych am Wybodaeth o dan y gyfraith Diogelu Data.

## Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth

**Y diben a'r sail gyfreithiol ar gyfer defnyddio eich gwybodaeth**

Defnyddir technoleg ARMED i gasglu amrywiol ddata am eich iechyd a gweithgarwch fydd yna'n destun model rhagfynegi drwy'r system ARMED er mwyn adnabod unrhyw nodweddion risg. Bydd hyn yn hwyluso ymyrryd yn gynnar ac yn lleihau'r risg bod cyfranogwyr yn cael codwm.

Lle mae'r system ARMED yn adnabod risg bosib, bydd hyn yn cael ei drafod gyda chi a / neu eiriolwr enwebedig. Lle mae angen i wasanaethau neu asiantaethau eraill hwyluso cymorth, byddwn yn rhoi eich manylion personol iddynt ond dim ond beth sydd ei angen iddynt ddarparu'r cymorth hwnnw.

Proseswn wybodaeth hefyd er mwyn:

- Cofrestru a phrosesu ceisiadau am y gwasanaeth
- Gosod a chynnal cyfarpar sy'n cael ei osod i gyflawni'r gwasanaeth
- Sicrhau bod y wybodaeth sydd gennym amdanoch yn gywir
- Sicrhau bod eich cyfarpar yn gweithio
- Rheoli ochr ariannol ein contract gyda chi
    - Anfon anfonebau
    - Rheoli taliadau, gan gynnwys diffyg talu
    - Eich hysbysu am newidiadau i'n taliadau
- Rheoli ein perthynas gyda chi
    - Eich hysbysu am newidiadau i'r gwasanaeth, telerau ac amodau, neu i'r polisi preifatrwydd
    - Gofyn i chi roi adborth neu gwblhau arolwg i'n helpu i wella'r gwasanaeth

- Gwerthuso'r gwasanaeth ARMED
- Darparu adroddiad dienw i'n partneriaid ariannu a chymorth prosiectau fel Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cronfa Gofal Integredig Aneurin Bevan, Partneriaid Prosiect Gwent (llywodraeth leol) a Llywodraeth Cymru
- Darparu adroddiad dienw i TEC Cymru. Gallai hwn gael ei gyhoeddi ar eu gwefan, i helpu sefydliadau eraill sy'n edrych ar y dechnoleg yma, a thechnoleg debyg.

Lle credir fod risg i oedolyn ar unrhyw adeg yn y broses, bydd Gweithdrefnau Amddiffyn Oedolion Bregus yn cael eu dilyn a allai arwain at ymchwiliad ac asesiad ffurfiol. Gallai nifer o asiantaethau gyfrannu at hyn, fel yr heddlu neu iechyd.
Er mwyn i broses data personol fod yn gyfreithlon o dan Reoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data 2016 (GDPR), rhaid adnabod amod dilys o Erthygl 6 y Rheoliadau, a amlinellir isod (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw):

1(b) processing is necessary for the performance of a contract to which the data subject is party or in order to take steps at the request of the data subject prior to entering into a contract.

Mae'r gyfraith ar ddiogelu data'n rhoi gwarchodaeth ychwanegol i rai dosbarthiadau gwybodaeth o'r enw 'data personol categori arbennig'. Os oes unrhyw wybodaeth yn dod o dan y diffiniad o ddata personol categori arbennig, rhaid adnabod amod ychwanegol o Erthygl 9 y Rheoliadau.

Mae'r gyfraith diogelu data hefyd yn rhoi gwarchodaeth ychwanegol i ddata personol ar droseddau ac euogfarnau troseddol. Os oes unrhyw ddata personol yn disgyn i'r categori hwn, rhaid adnabod amod ychwanegol o Erthygl 10 y Rheoliadau.

Mae'r amod isod yn amod Erthygl 9 ac Erthygl 10 ar gyfer prosesu data (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

2(h) processing is necessary for the purposes of preventive or occupational medicine, for the assessment of the working capacity of the employee, medical diagnosis, the provision of health or social care or treatment or the management of health or social care systems and services on the basis of Union or Member State law or pursuant to contract with a health professional and subject to the conditions and safeguards referred to in paragraph 3;

Mae'r Erthygl uchod hefyd yn gofyn cael amod prosesu ychwanegol o Atodlen 1 Deddf Diogelu Data 2018 (nid yw ar gael yn Gymraeg gan mai dyfyniad o ddeddfwriaeth nad yw wedi ei gwneud yn Gymraeg ydyw).

2(1) This condition is met if the processing is necessary for health or social care purposes.
(2) In this paragraph "health or social care purposes" means the purposes of—
(a) preventive or occupational medicine,
(b) the assessment of the working capacity of an employee,
(c) medical diagnosis,
(d) the provision of health care or treatment,
(e) the provision of social care, or
(f) the management of health care systems or services or social care systems or services.

## Pwy fydd yn cael mynediad at eich gwybodaeth

### Pwy yw'r Rheolydd Data a'r Swyddog Diogelu Data

Y Rheolydd Data ar gyfer eich gwybodaeth yw Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Y Swyddog Diogelu Data yw:

Ms Joanne Jones
Rheolwr Llywodraethu Gwybodaeth Corfforaethol / Swyddog Diogelu Data
E-bost: DiogeluData@caerffili.gov.uk
Rhif ffôn: 01443 864322

Gallai Rheolyddion Data eraill hefyd fod yn gyfrifol am eich gwybodaeth, gan ddibynnu ar yr amgylchiadau. Am fwy o wybodaeth, cysylltwch â'r maes gwasanaeth.

**Manylion am brif ddefnyddwyr eich gwybodaeth**

Prif ddefnyddwyr eich gwybodaeth fydd Gwasanaethau Teleofal Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Os bydd angen i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ymwneud â'ch achos, bydd eich data'n cael ei drosglwyddo i dîm yn y Gwasanaethau Oedolion am wasanaeth neu gymorth priodol. Gallai'r timau hyn gynnwys:

- Timau Pobl Hŷn
- Tîm Therapi Galwedigaethol
- Tîm Anableddau Corfforol a Nam ar y Synhwyrau
- Tîm Anableddau Dysgu
- Tîm Camddefnyddio Sylweddau
- Tîm Iechyd Meddwl
- Tîm Cefnogi Pobl
- Gwasanaethau Cymorth Cymunedol
- Tîm Plant ag Anableddau
- Timau Llety Oedolion (Tai Cymorth, Cysylltu Bywydau, a Seibiant)
- Tîm Comisiynu
- Gwasanaethau Gofal Preswyl a Dydd
- Tîm Cymorth Cartref ac Ailalluogi (HART)
- Tîm Ar-y-cyd Rhyddhau o'r Ysbyty
- Tîm Diogelu Oedolion / Amddiffyn Oedolion Agored i Niwed (POVA)
- Tîm Cyllid Cleientiaid

Yn ogystal â'r uchod, gallai'r timau canlynol hefyd weld eich gwybodaeth:

- Adran Dai Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili – os ydych yn denant i Wasanaeth Tai'r Cyngor ac mae'r cymorth sydd ei angen arnoch yn ymwneud â thai
- Tîm Dyletswydd Brys De-Ddwyrain Cymru – os gwneir atgyfeiriad allan o oriau
- Tîm Cwynion a Gwybodaeth – os yw'r achos yn cael ei uwchgyfeirio fel cwyn
- Gwasanaethau Cyfreithiol – os yw'r achos yn ymwneud â phroses y llys
- Tîm Treth y Cyngor / Budd-daliadau – i weld a ydych yn gymwys i dderbyn gostyngiad am y gwasanaeth
- Tîm Gwasanaethau Ariannol – os yw eich achos yn cael ei asesu ar gyfer asesiad ariannol
- Gwasanaethau Yswiriant – os oes hawliad yn erbyn yr Awdurdod
- Tîm Iechyd a Diogelwch – os oes angen asesiad risg
- Timau Cyllid Corfforaethol / Archwilio Mewnol – os oes angen archwiliad.

**Manylion am rannu eich gwybodaeth o fewn Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili**

Bydd eich gwybodaeth yn cael ei chadw ar y system ARMED a hefyd ar System Gwybodaeth Gofal Cymunedol Cymru (WCCIS), sy'n system ar-y-cyd ar gyfer darparwyr gwasanaethau Gofal Cymdeithasol, Iechyd Cymunedol ac Iechyd Meddwl yng Nghymru.

Bydd pwy fydd yn cael gweld eich gwybodaeth yn cael ei reoli, fel bod ymarferwyr perthnasol yn cael gweld manylion perthnasol er mwyn darparu gofal yn ddiogel i bobl Cymru.

**Manylion am rannu eich gwybodaeth gyda sefydliadau eraill**

Beth yr hyn a wnawn mewn ymateb i wybodaeth a gawsom yn gymesur â'r wybodaeth a gallai fod angen i ni weithiau siarad neu drafod gyda chydweithwyr allanol. Gallai hyn gynnwys ond heb ei gyfyngu i:

- Y gwasanaethau brys
- Pobl y byddwch chi neu eiriolwr wedi eu henwebu fel ymatebydd personol
- Eich meddyg teulu neu weithwyr iechyd proffesiynol eraill
- Gofalwr neu asiantaethau gofal
- Landlord cymdeithasol cofrestredig neu staff y Tîm Tai
- Peirianwyr cyfarpar larwm
- Gwasanaethau cyfieithu
- Awdurdodau lleol eraill
- Yr Adran Gwaith a Phensiynau
- Y Llys Gwarchod
- Cwmnïau trydan, dŵr ayyb
- Aelodau o'ch teulu
- Awdurdodau iechyd
- Cyrff rheoleiddio - Arolygiaeth Gofal Cymru / Arolygiaeth Iechyd Cymru
- Cynrychiolwyr cyfreithiol
- Gweithwyr gofal proffesiynol
- Trefnwyr angladdau
- Asiantaethau partner

Weithiau, bydd angen ymyriad anstatudol i ateb eich anghenion. Yn yr achosion hyn byddwn yn eich atgyfeirio at sefydliadau perthnasol fel Cyngor ar Bopeth neu grwpiau cymorth eraill ac yn y blaen.

Bydd eich data personol yn ddienw ac yn cael ei gasglu'n adroddiad i'w rannu â'n partneriaid ariannu a chymorth prosiectau fel Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cronfa ICF Aneurin Bevan, Partneriaid Prosiect Gwent (llywodraeth leol), Llywodraeth Cymru a TEC Cymru.

Os oes angen sefydlu contract gyda darparwr allanol i ddarparu gwasanaeth neu gymorth perthnasol, bydd yr holl ddata perthnasol yn cael ei rannu â'r darparwr i sicrhau bod y gwasanaeth yn cael ei ddarparu'n iawn.

Os bydd eich data personol yn cael ei rannu â sefydliadau eraill, bydd y broses yn cydymffurfio â gofynion deddfwriaeth diogelu data.

Os symudwch y tu allan i ardal Bwrdeistref Sirol Caerffili, gall eich data personol gael ei rannu â'ch awdurdod lleol newydd er mwyn gallu parhau i roi cymorth i ateb eich anghenion chi / eich teulu.

I weld y wybodaeth a roddir i Lywodraeth Cymru am bobl sy'n derbyn gwasanaethau cymdeithasol, cliciwch yma

**Ceisiadau am wybodaeth**

Gall unrhyw wybodaeth wedi'i chofnodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili fod yn destun cais am wybodaeth o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000, Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 a'r ddeddfwriaeth Diogelu Data.

Os derbyniwn gais i weld unrhyw wybodaeth a roddwch i ni, lle bo'n bosib bydd y Cyngor yn trafod hyn cyn rhyddhau'r wybodaeth. Os byddwch yn gwrthwynebu i ryddhau eich gwybodaeth, ni fyddwn yn ei rhyddhau os yw'r gyfraith berthnasol yn caniatáu.

## Am ba mor hir y byddwn yn cadw eich gwybodaeth

### Manylion cyfnodau cadw

Bydd am ba hyd y bydd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili'n cadw eich gwybodaeth yn dibynnu ar ofynion statudol neu ymarfer gorau. Byddwn yn cadw eich holl wybodaeth yn ddiogel, yn electronig neu fel copïau papur. Byddwn ond yn cadw eich gwybodaeth am gyfnod penodol o amser, ar ôl hynny bydd yn cael ei dinistrio'n ddiogel yn unol â Pholisi Cadw a Gwaredu Cofnodion y Gyfarwyddiaeth.

Bydd natur y wybodaeth yn penderfynu am ba hyd y byddwn yn ei chadw.

| | |
|---|---|
| Gwybodaeth bersonol | Cofnod ARMED electronig:<br>Mae gwybodaeth bersonol yn cael ei chadw ar y system ARMED fyw dros gyfnod y contract. Bydd yn cael ei thynnu allan o'r system ARMED fyw'n syth ar ôl i'r contract gael ei ganslo a'r cyfarpar larwm yn cael ei ddychwelyd (os nad yw'r cyfarpar yn cael ei ddychwelyd, neu mae ar goll, gall y Rheolwr Teleofal awdurdodi dileu cyfrifon a ganslwyd)<br><br>Mae ARMED yn gwneud copïau wrth gefn o'u data'n rheolaidd ac yn eu storio am 8 mlynedd, cyn eu dinistrio'n ddiogel wedyn. Mae'r data wrth gefn yn cael ei amgryptio a'i gadw mewn lleoliad diogel achrededig yn y Deyrnas Unedig.<br><br>Cofnodion papur:<br>Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw ar ffeil dros gyfnod y contract cyn cael ei dinistrio'n ddiogel 12 mis ar ôl ei thynnu oddi ar ddata-bas PNC (ac eithrio'r ffurflen TAW). |
| Ffurflenni TAW | Yn cael eu cadw am 7 mlynedd ar ôl tynnu'r cyfrif oddi ar PNC |
| Gwybodaeth ddienw | Bydd fersiynau dienw o'r data ARMED a gasglwyd yn cael eu cadw ar y system ARMED a'u defnyddio i fwydo i fodelau yn y dyfodol.<br><br>Bydd adroddiadau dienw, yn defnyddio data o ARMED a'r wybodaeth asesu a gwerthuso a gasglwyd yn ystod ac ar ddiwedd y treial, yn cael eu cadw gan y Cyngor a'u rhannu â'i bartneriaid ariannu a chymorth fel Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cronfa Gofal Integredig Aneurin Bevan, Partneriaid Prosiectau Gwent (llywodraeth leol) a Llywodraeth Cymru.<br><br>Gallai TEC Cymru gadw'r adroddiadau dienw er mwyn eu cyhoeddi ar eu gwefan i helpu sefydliadau eraill sy'n edrych ar y dechnoleg yma, a thechnoleg debyg. |

## Eich Hawliau (gan gynnwys y Weithdrefn Gwyno)

### Eich hawliau o dan y Ddeddf Diogelu Data

Mae'r Ddeddf Diogelu Data yn rhoi nifer o hawliau i destun y data (y rheiny y mae'r wybodaeth yn sôn amdanynt):

- Hawl i gael mynediad at ddata gan y testun – mae ffurflenni cais ar gyfer y broses hon ar gael ar ein gwefan:

- Yr hawl i gael gwybod
- Yr hawl i gywiro eu data
- Yr hawl i ddileu eu data
- Yr hawl i gyfyngu ar brosesu eu data
- Yr hawl i wrthwynebu
- Yr hawl i gludadwyedd eu data
- Hawliau'n mewn perthynas â gwneud penderfyniadau a phroffilio awtomataidd.

Mae rhagor o wybodaeth am eich hawliau ar gael yn: www.ico.org.uk.
I ymarfer eich hawliau dylech gysylltu â'r maes gwasanaeth ar ben y ffurflen hon.

**Y Weithdrefn Gwyno**

Os nad ydych yn hapus â'r ffordd y mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi delio â'ch cais / gwybodaeth, mae gennych hawl i gwyno. Dylech gysylltu â'r maes gwasanaeth ar ben y ddogfen hon yn amlinellu eich pryderon.

Os byddwch yn parhau i fod yn anhapus, gallwch gwyno i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Dylech ddilyn y ddolen hon am fwy o fanylion am y broses gwyno.

https://www.caerphilly.gov.uk/My-Council/Data-protection-and-freedom-of-information/Questions-and-complaints?lang=cy-gb

# Crynodeb o’r Hysbysiad Preifatrwydd

## Sut y byddwn yn defnyddio'ch gwybodaeth

Bydd gwasanaeth ARMED Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili’n casglu a chadw gwahanol ddata iechyd, lles a gweithgarwch a’i asesu yn erbyn model rhagfynegi drwy’r system ARMED fydd yn adnabod unrhyw nodweddion risg. Bydd hyn yn hwyluso ymyrryd yn gynnar ac yn lleihau’r risg bod cyfranogwyr yn cael codwm. Byddwn hefyd yn cadw gwybodaeth bersonol amdanoch fel y gallwn eich cynorthwyo pe bai’r system yn adnabod risg bosib. Byddwn hefyd yn casglu a chadw gwybodaeth fel y gallwn werthuso’r gwasanaeth.

Er mwyn eich cynorthwyo, efallai y bydd angen i ni rannu eich gwybodaeth ag adrannau eraill y Cyngor (er enghraifft, Gwasanaethau Cymdeithasol neu Dai) a / neu sefydliadau perthnasol / allanol (er enghraifft y Gwasanaethau Brys, gweithwyr iechyd proffesiynol, asiantaethau gofal neu awdurdodau lleol eraill) a / neu gyda phobl wedi eu henwebu gennych chi neu eiriolwr i fod yn ymatebydd personol.

Byddwn yn cadw eich holl wybodaeth bersonol yn ddiogel a dim ond am gyfnod penodol o amser. Rhoddir mwy o fanylion am ba hyd y byddwn yn cadw eich gwybodaeth yn y ddolen isod.

Bydd gwybodaeth ac adroddiadau di-enw’n cael eu creu gan y Cyngor a’u rhannu â’n partneriaid ariannu a chymorth gan gynnwys gyda Chymdeithas Tai Unedig Cymru, Cronfa Gofal Integredig Aneurin Bevan, Partneriaid Prosiect Gwent (llywodraeth leol) a Llywodraeth Cymru.

Gallai TEC Cymru gyhoeddi adroddiadau di-enw er mwyn eu cyhoeddi ar eu gwefan i helpu sefydliadau eraill sy’n edrych ar y dechnoleg yma, a thechnoleg debyg.

Bydd adroddiadau dienw, yn defnyddio data o ARMED a’r wybodaeth asesu a gwerthuso a gasglwyd yn ystod ac ar ddiwedd y treial, yn cael eu cadw gan y Cyngor a’u rhannu â’i bartneriaid ariannu a chymorth fel Cymdeithas Tai Unedig Cymru, Cronfa Gofal Integredig Aneurin Bevan, Partneriaid Prosiectau Gwent (llywodraeth leol) a Llywodraeth Cymru.

Mae gennych nifer o hawliau’n ymwneud â’r wybodaeth amdanoch, gan gynnwys yr hawl i weld eich gwybodaeth ac i gwyno os nad ydych yn hapus â’r ffordd y mae eich gwybodaeth yn cael ei phrosesu.

Am fwy o fanylion am sut y proseswn eich gwybodaeth, ac am eich hawliau, cliciwch ar y ddolen hon:

{Hyperlink to Full Privacy Notice on our website}